



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Cymerau
Ffordd Mela
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AR**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae ysgol gynradd sirol ddwyieithog Cymerau yn gwasanaethu tref Pwllheli a'r cyffiniau gan gynnwys Penrhos ac Efailnewydd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.

Mae 312 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 45 o blant meithrin rhan amser. Mae'r niferoedd wedi codi ychydig ers yr arolygiad diwethaf. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan bron dri chwarter o'r disgyblion. Yn ddiweddar, ymunodd nifer o ddisgyblion â'r ysgol o du hwnt i Gymru a bellach mae 6% o'r disgyblion lle ystyrir bod Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae hyn yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd er bod rhan o ddalgylch yr ysgol yn ardal sydd wedi'i dynodi yn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf.' Mae 16% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sy'n ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 27% o'r disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae pump ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae uned sirol addysg arbennig yn yr ysgol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 1 ag anhwylderau iaith.

Addysgir y disgyblion mewn 13 dosbarth gan 13 o athrawon llawn amser, pedair athrawes ran amser, ynghyd ag wyth cymhorthydd llawn amser a phedair rhan amser.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2005. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2003.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cymerau yw £3,052 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 84fed uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth dda a'r profiadau ymarferol cyfoethog a roddir i'r plant i'w hysgogi i ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen;
- bod disgyblion o bob oedran ac o alluoedd gwahanol yn cyrraedd eu potensial gyda'r mwyafrif ohonynt yn cyrraedd safonau da, gydag elfennau o ragoriaeth mewn iaith;
- bod medrau cyfathrebu'r disgyblion yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth yn dda ac yn eu galluogi i gyfranogi'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm;
- y sylw effeithiol a rhoddir i les disgyblion ac i'w hanghenion dysgu ychwanegol;
- y gefnogaeth effeithiol a rhoddir i ddisgyblion sydd â'r Saesneg a/neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol; a
- yr addysgu da sy'n ysgogi'r disgyblion i gyfranogi yn eu dysgu ac i gael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol.

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- mae ganddi hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliant mewn deilliannau disgyblion;
- caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol ac mae ganddi ymdeimlad clir a chytunedig o bwrpas a chyfeiriad;
- mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion;
- mae prosesau hunan-arfarnu yn drwyadl ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn; a
- mae'r llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ac ar adegau wedi rhoi arweiniad clir sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfeiriad strategol yr ysgol.

Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

- A1 godi safonau'r disgyblion ym mathemateg a gwyddoniaeth erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 2;
- A2 datblygu ymhellach rôl y disgyblion yn asesu ar gyfer dysgu;
- A3 datblygu rôl yr uwch dîm rheoli ac eraill, yn y broses hunan-arfarnu trwy arsylwi ac arfarnu'r dysgu a'r addysgu yn y dosbarthiadau; a
- A4 chyflwyno rhaglen strwythuredig o reoli perfformiad cymorthyddion dosbarth.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae llawer o'r plant yn dechrau yn yr ysgol â medrau is na'r disgwyl ar gyfer plant o'u hoed. Mae safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o'u cymharu â chanlyniadau asesiadau sylfaen ar fynediad i'r ysgol yn dangos cynnydd pendant. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y disgyblion yn dangos cynnydd cadarn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif helaeth ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, mae bron pob un o'r disgyblion yn saith mlwydd oed yn medru cyfathrebu'n effeithiol, yn enwedig ar lafar yn y Gymraeg, ac yn gwneud defnydd llawn o'u medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn 11 mlwydd oed yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Gall y mwyafrif drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg. Gwnânt ddefnydd llwyddiannus o ddeunydd darllen mewn un iaith a chyflwyno'r wybodaeth mewn iaith arall. Mae'r mwyafrif yn medru darllen yn ystrolon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith ac yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddia'r disgyblion ystod eang o fedrau darllen ac ysgrifennu yn effeithiol i wahanol bwrpasau. Mae hyn yn cynnwys darllen proflenni, bras - ddarllen, cip-ddarllen, ail ddrafftio, ac ysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd. Mae eu gwaith ysgrifenedig graenus yn rhoi sylw priodol i gywirdeb sillafu, atalnodi, gramadeg a llawysgrifen.

Trwy'r ysgol mae gwybodaeth y disgyblion am y Cwricwlwm Cymreig yn dda iawn. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg i hybu'n effeithiol ymwybyddiaeth y dysgwyr o'r dreftadaeth lenyddol a diwylliannol wrth iddynt astudio pob math o destunau lleol a chenedlaethol.

Yn 2010, mae mwyafrif o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gwneud yn dda ac yn cyrraedd y lefel ddisgwylidig, sef lefel 2. Mae'r nifer sydd yn cyrraedd y lefel hon yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a'r ffigwr cenedlaethol. Mae nifer o'r disgyblion hefyd yn perfformio'n uwch na chyfartaledd y teulu, a'r ffigwr cenedlaethol ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 3, ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Perfformiad da'r bechgyn yn 2010 sydd yn gyfrifol am hyn. Yn 2010, roedd cyflawniadau'r bechgyn yn saith mlwydd oed yn sylweddol well na'r merched mhob pwnc craidd. Mae'r bechgyn a'r merched wedi cyrraedd safonau sy'n gyson dda yn asesiadau athrawon mewn Cymraeg ar draws y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 yn 2010 yn well nag yn 2009. Fodd bynnag, mewn nifer o ddangosyddion yn 2010 nid yw'r canlyniadau yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion eraill o fewn y teulu ac ysgolion tebyg yn genedlaethol. Perfformiad gwan y merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 1

yn 2010 sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Mae perfformiad y disgyblion yn 11 oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos gwelliant parhaus ers 2008. Yn 2010, roedd canlyniadau'r merched yn sylweddol well na'r bechgyn ymhob pwnc craidd ac yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae canlyniadau'r merched yn agos i, neu yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r teulu yn yr holl ddangosyddion perfformiad.

Mae perfformiad y bechgyn yn 11 oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2010, yn sylweddol is na pherfformiad y bechgyn o fewn teulu'r ysgol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn lleihau ar y ganran o'r disgyblion sy'n llwyddo i gyrraedd y lefel a ddisgwylir yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae hyn yn achosi i perfformiad yr ysgol ar y cyfan fod ychydig yn is na'r cyfartaledd am ysgolion tebyg. Serch hynny, yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, nid oes patrwm cyson ar draws gyfnod o bedair blynedd ym mherfformiad bechgyn o'i gymharu â pherfformiad y merched.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad y plant sydd a'r hawl i ginio rhad ac am ddim o'u cymharu â'r disgyblion eraill ar draws y pedair blynedd olaf.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysg ychwanegol ac sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyrraedd eu potensial.

Lles: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar ac mae mwynhad y dysgwyr a'u rhan weithredol ym mywyd yr ysgol yn nodweddion cryf. Mae'r disgyblion yn wybodus iawn am bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau gweithredol a chorfforol sy'n hybu ac yn meithrin eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd dulliau o gadw'n iach a heini.

Mae cyfraddau presenoldeb ychydig yn is na 95% sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau. Mae'r plant yn elwa ar ystod briodol o ymweliadau a digwyddiadau yn y gymuned. Maent hefyd yn elwa trwy ymweld â busnesau a siopau lleol yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith mewn nifer o feysydd cwricwlaidd.

Drwy gyngor yr ysgol a defnydd effeithiol o holiaduron, ynghyd â gwrando ar y plant iau, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da iawn i fynegi barn a chyfrannu i fywyd a gwaith yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Mae athrawon yn cydweithio i gynllunio rhaglenni gwaith sydd yn ennyn diddordeb y dysgwyr. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio sy'n galluogi'r disgyblion i'w defnyddio yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion o bob oed i ddatblygu medrau thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn ymgorffori gweithgareddau sy'n ysgogi'r disgyblion i feddwl mewn llawer o'r gwersi.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr. Mae'r ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig ac yn y gymuned leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda iawn. Enillodd yr ysgol nifer o wobrau gan gynnwys, Ysgolion Rhyngwladol, cynllun aur fel Ysgol Werdd ac hefyd gwobr Cam 3 Cynllun Ysgol Iach. Rhoddir sylw helaeth i ddiwylliannau eraill, yn bennaf o ganlyniad i'r cysylltiadau â Tsieina ac India, ond hefyd amryw o wledydd eraill. Derbyniodd yr ysgol dystysgrif 'Gwobr Ysgolion Rhyngwladol' gan y Cyngor Prydeinig. Cynhelir gweithgareddau i hybu nwyddau Masnach Deg ar gyfer y plant a'r rhieni. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i faterion cyfoes sydd yn y newyddion ar draws y byd ac sydd o ddiddordeb i'r disgyblion.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda trwy'r ysgol. Yn y gwersi lle mae'r addysgu ar ei orau, anogir y disgyblion i weithio'n annibynnol i gynhyrchu gwaith o safon dda. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth drwyadl o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Mae cyflymder da i'r gwersi. Yn y gwersi hyn mae'r athrawon yn gosod tasgau gwahaniaethol priodol ar gyfer disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle nad yw'r addysgu cystal, mae'r cyflwyniadau yn rhy hir a chyflymder y wers yn araf. Mae'r cwestiynu'n gaeedig ac mae lefelau cyfranogiad disgyblion yn gostwng.

Mae athrawon yn rhoi targedau priodol i'r disgyblion ar gyfer gwella safon eu gwaith gan gynnwys disgyblion sydd yn tangyflawni. Rhoddir cymorth ychwanegol iddynt er

mwyn eu symud ymlaen.

Yn y gwersi iaith, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i wirio eu gwaith ar sail meini prawf llwyddiant penodol. Mae rhai cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith ysgrifennu eu hunain a gwaith ei gilydd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ond nid yw hyn yn gyson drwy'r ysgol. Nid yw'r arfer o gynnwys y meini prawf llwyddiant ar gyfer y medrau allweddol wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a hapus ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer y gofal bugeiliol yn gadarn. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant. Ceir gweithdrefnau clir i ddelio â bwlio a gwahaniaethu ar sail hil neu anabled.

Mae gan y staff wybodaeth fanwl am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn barod i wrando ac i helpu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio'n effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau arbenigol er mwyn rhoi cefnogaeth a hybu datblygiad y disgyblion hyn.

Mae cynlluniau addysgu unigol o ansawdd da, yn cynnwys y rhai ar gyfer disgyblion â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Cynhelir adolygiadau cynnydd yn rheolaidd, sy'n cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion fesur eu cynnydd eu hunain mewn perthynas â'u targedau. Cynllunnir gweithgareddau gwahaniaethol addas ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r trefniadau pontio rhwng blwyddyn 6 a'r ysgol uwchradd yn effeithiol, yn enwedig ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol i ddiogelu, cefnogi a gofalu am y disgyblion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae awyrgylch dysgu cadarnhaol iawn yn treiddio holl agweddau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ethos positif, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau priodol, yn sicrhau fod yr ysgol yn un gynhwysol ac yn parchu amrywiaeth. Mae pob plentyn yn cael cyfle cyfartal o ran y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. Derbyniodd yr holl staff hyfforddiant cydraddoldeb priodol ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu gwynion cysylltiedig sy'n codi.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ac yn cynnig amgylchedd ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael o fewn a thu allan i'r adeiladau. Caiff adeiladau a thir yr ysgol hefyd eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae ystod briodol o adnoddau ar gyfer dysgu, gydag adnoddau da iawn mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau i hyrwyddo profiadau dysgu symbylus i'r disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae arweinyddiaeth y pennaeth, gyda chefnogaeth y tîm rheoli, yn cael effaith positif ar rediad a threfniadaeth yr ysgol. Mae gweledigaeth gytûn o ran cyfeiriad strategol yr ysgol, ac mae penderfyniadau wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth yn deillio o hunan arfarnu effeithiol. Mae'r arweinyddiaeth yn gynhwysol, ac yn sicrhau bod pawb yn medru cyfrannu at drafodaeth sy'n arwain at weithredu.

Mae'r defnydd o ddata perfformiad yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r pennaeth yn dadansoddi canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 yn drylwyr, ac yn llunio cynlluniau gweithredu i ymateb i'r canfyddiadau. Caiff y rhain eu hystyried a'u trafod yn drylwyr gan yr athrawon a'r llywodraethwyr.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn briodol yn cynnwys pennu targedau ar gyfer staff. Er y rhoddir sylw priodol i anghenion hyfforddiant cymorthyddion dosbarth, ni chynhwysir hwy mewn rhaglen ffurfiol o reoli perfformiad.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae aelodau o'r corff wedi cymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol ac wedi cynnal cyfarfodydd i drafod â'r cydlynwyr perthnasol. Maent yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ac ar adegau wedi rhoi arweiniad clir sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm o dan arweiniad eu harweinyddion cyfnod allweddol a'r cydlynwyr pynciau. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae camau positif wedi eu cymryd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, mewn meysydd fel asesu ar gyfer dysgu, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd, a chynyddu cyfranogiad disgyblion. Caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu'n llawn yn unol â'r gofynion.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a thrylwyr sydd wedi eu sefydlu ers nifer o flynyddoedd, gan gynnwys dadansoddi data, arfarnu'r ddarpariaeth a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnwys barn swyddogion addysg yn effeithiol fel rhan o'i threfniadau hunan arfarnu ac yn ymateb i'w sylwadau trwy gynllun gweithredu yn dilyn pob ymweliad. Fodd bynnag, nid yw'r broses o arsylwi gwersi i adnabod cryfderau'r a'r meysydd i'w datblygu yn y dysgu a'r addysgu wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol, sydd yn gyffredinol o ansawdd da. Mae'r blaenoriaethau'n glir ond nid yw'r meini prawf llwyddiant a'r effaith ar safonau bob tro wedi eu nodi'n ddigon manwl.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon yn gweithio fel rhan o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol ac yn ehangach gydag ysgolion eraill. Mae athrawon o'r ysgol wedi rhoi arweiniad ar feysydd dysgu penodol o fewn yr awdurdod lleol, ac wedi rhannu arfer dda yn lleol a chenedlaethol. Yn ogystal, secondiwyd athrawon o'r ysgol i weithio ar lefel lleol a chenedlaethol mewn meysydd penodol.

Yn fewnol, ac ar lefel dalgylch, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd buddiol i drafod a rhannu arferion diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu megis asesu ar gyfer dysgu a'r Cyfnod Sylfaen. Mae athrawon yr ysgol wedi ymweld â sefydliadau eraill er mwyn rhannu arfer dda. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategaethol defnyddiol.

Mae cyswllt cadarn gyda'r rhieni ac maent yn medru cyfrannu i waith yr ysgol trwy ymateb i holiaduron a chynnig awgrymiadau a sylwadau mewn blwch syniadau. Cred rhieni fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a hwythau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda holl adrannau perthnasol yr awdurdod lleol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda Llyfrgell Gwynedd ar weithdai llythrennedd i dargedu dysgwyr anfoddog ym mlwyddyn pump.

Ceir cydweithio buddiol gyda'r ysgol uwchradd leol a gydag ysgolion cynradd eraill y cylch. Mae nifer o weithgareddau pontio cwricwlaidd buddiol yn digwydd ar y cyd gyda'r ysgol uwchradd, sy'n cyfoethogi profiadau ac yn datblygu medrau a gwybodaeth disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n rheolaidd gyda cholegau addysg bellach lleol a'r Mudiad Ysgolion Meithrin i ddarparu lleoliadau hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gofal plant. Mae darpar athrawon sy'n dilyn cwrs mewn prifysgol yn cael eu lleoli yn yr ysgol am gyfnodau byr ac estynedig.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Caiff y defnydd gorau posibl ei wneud o adeilad sy'n ddigon anodd o ran cynllun. Mae yn yr ysgol adnoddau digonol ar gyfer gofynion y meysydd dysgu, ac mae'n gwneud defnydd effeithiol ohonynt.

Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol ar draws yr ysgol, ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar

Adroddiad ar Ysgol Cymerau
Mawrth 2011

gyfer y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion.

Mae'r pennaeth a phanel cyllid y corff llywodraethol yn cynllunio a rheoli gwariant yn ofalus i ateb gofynion y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau grantiau i wella'r ddarpariaeth. Sicrhawyd £10,000 i wella'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 83 o holiaduron y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. At ei gilydd, mae rhieni yn mynegi llawer iawn o foddhad gyda'r ysgol. Maent oll yn teimlo ei bod yn cael ei rhedeg yn dda ac mae ganddynt farn gadarnhaol iawn am ei gwaith.

Mae'r holl rieni yn datgan bod eu plant yn cael eu helpu i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol pan fyddant yn dechrau. Mae pob rhiant yn teimlo bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac maent yn hapus ac yn ddiogel. Mae bron pawb yn teimlo bod eu plant yn ymddwyn yn dda. Mae pob rhiant hefyd yn teimlo bod yr addysgu yn dda ac mae'r plant yn cael eu hannog i gadw'n iach a heini.

Mae bron pob rhiant yn teimlo bod yna ystod dda o weithgareddau yn yr ysgol ac y rhoddir gwaith cartref yn briodol. Mae bron yr holl rieni yn datgan bod plant yn cael digon o gymorth ychwanegol gyda'u hanghenion dysgu unigol ac yn teimlo bod plant yn cael eu trin yn deg a chyda pharch.

Mae bron yr holl rieni yn datgan bod staff yr ysgol yn hawdd mynd atynt os oes ganddynt bryderon neu gwestiynau, ond nid yw rhai yn teimlo eu bod yn ddigon gwybodus am gynnydd eu plant. Mae rhan fwyaf yn datgan bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf ac yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 102 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur, a siaradodd y tîm â chynrychiolaeth o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent bron i gyd yn gwybod â phwy i siarad pan fyddant yn bryderus neu'n ofidus. Mae bron pob disgybl hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac i gyd yn cytuno bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n teimlo nad ydynt yn gwybod beth i'w wneud neu pwy i holi os ydy eu gwaith yn galed, ac mae nifer tebyg yn teimlo nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella ar eu gwaith.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cytuno fod yr ysgol yn eu helpu i fyw bywydau iach ac yn teimlo eu bod yn cael llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu yn dda. Mae dau allan o bob tri disgybl yn teimlo bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae nifer tebyg yn teimlo fod ymddygiad plant yn dda ac yn eu galluogi i wneud eu gwaith.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Jeff Jones	Arolygydd Cofnodol
Terwyn Tomos	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Gwennol Ellis	Arolygydd Cymheiriaid
Dylan Roberts	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11